

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Medi 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

90(v3)

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

[Andrew RT Davies \(Canol De Cymru\)](#): Yn sgil penderfyniad Transport for London i ddirymu trwydded gweithredwr hurio preifat Uber, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb y cwmni yng Nghymru?



4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Biliau Pwyllgorau

(5 munud)

NDM6512 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 – Biliau Pwyllgor' a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2017.
2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13 mewn perthynas â Deddf Cymru 2017 ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru

(5 munud)

NDM6511 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13 – Deddf Cymru 2017 ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru' a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2017.
2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 11, 12 a 13, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

7 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 01–17 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

NDM6508 [Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#)

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- a) yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 01–17 – a [osodwyd](#) gerbron y Cynulliad ar 3 Awst 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; ac
- b) yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

8 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ar y trywydd iawn? Masnachfaint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru

(60 munud)

NDM6510 [Russell George \(Sir Drefaldwyn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i'r Fasnachfaint Rheilffyrdd a Metro De Cymru a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2017.

Dogfen ategol

[Ymateb gan Lywodraeth Cymru](#)

9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?

(60 munud)

NDM6514 [David Rees \(Aberafan\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei 'Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?' a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2017.

Nodyn: [Gosodwyd](#) yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 20 Medi 2017.

10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

NDM6513 [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i bawb'.
2. Yn gresynu at y diffyg manylion yn y ddogfen a'r diffyg targedau penodol ar gyfer y Llywodraeth o dan arweiniad Llafur yn ystod y pumed Cynulliad.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu targedau penodol a mesuradwy iddi eu cyflawni erbyn 2021 sy'n ymwneud â'r economi, y system addysg a'r gwasanaeth iechyd.

['Ffyniant i bawb - y strategaeth genedlaethol'](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

2. Yn nodi bod y strategaeth genedlaethol newydd yn ategu'r addewidion uchelgeisiol a nodwyd eisoes yn Symud Cymru Ymlaen, gan gynnwys sefydlu Cronfa Triniaethau Newydd a chynyddu gwariant ar safonau ysgolion.

3. Yn cydnabod bod angen i'r llywodraeth a phob partner cyflenwi yng Nghymru weithio'n well, ac ar draws strwythurau presennol, i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn wyneb agenda parhaus o doriadau niweidiol gan Lywodraeth y DU.

['Symud Cymru Ymlaen'](#)

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]

Gwelliant 2. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod Cymru, ers 1999, wedi disgyn ar ei hôl hi o ran cynhyrchiant economaidd, cyflogau ac incwm y cartref o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Gwelliant 3. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at oedi parhaus Llywodraeth Cymru yn y broses o gyhoeddi ei strategaeth economaidd a'i methiant i ymgynghori â'r gymuned fusnes a rhanddeiliaid eraill ar ei chynnwys.

11 Cyfnod Pleidleisio

12 Dadl Fer

(30 munud)

NDM6515 [Joyce Watson \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

Dŵr ffo o'r mynydd ac ar ein ffyrdd – a all Cymru atal problem gorlifo sydyn?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Medi 2017 i'w hateb ar 27 Medi 2017

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw Llefaryr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gofyn i [Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#)

1. [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y mae'n bwriadu asesu gweithrediad y cod ymarfer ar gyfer cyflogaeth moesegol mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ51064)
2. [Russell George \(Sir Drefaldwyn\)](#): Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i rhoi i sefydlu bargaen twf i ganolbarth Cymru? (OAQ51067)
3. [Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllid llywodraeth leol ar gyfer 2018/19? (OAQ51076)
4. [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd gwariant ar draws ei chyllideb? (OAQ51058)
5. [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ51056)
6. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am egwyddorion buddsoddi i arbed? (OAQ51070)W
7. [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyhoeddi cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru? (OAQ51073)
8. [David Rees \(Aberafan\)](#): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus o fewn llywodraeth leol? (OAQ51075)
9. [Jeremy Miles \(Castell-nedd\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y bydd Castell-nedd yn elwa oherwydd bargaen ddinesig Bae Abertawe? (OAQ51068)

10. [Lynne Neagle \(Torfaen\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn Nhor-faen dros y 12 mis nesaf? (OAQ51071)

11. [Joyce Watson \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ51060)

12. [Gareth Bennett \(Canol De Cymru\)](#): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o gynghorau Cymru yn allanoli gwasanaethau lleol i'r sector preifat? (OAQ51072)

13. [Llyr Gruffydd \(Gogledd Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y setliad ariannol a roddir i awdurdodau lleol? (OAQ51069)W

14. [Nathan Gill \(Gogledd Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa bwerau ariannol a gaiff eu datganoli i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru? (OAQ51065)

15. [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau menter cyllid preifat o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru? (OAQ51059)